HYDREF 17, 2025

# Ysgol Treganna

Cylchlythyr Wythnosol



Agorwch gyfrif Instagram yr ysgol er mwyn gweld lluniau o uchafbwyntiau'r wythnos!

## Su mae / Shw mae

Ddydd Mercher, fe wnaethon ni ddathlu Diwrnod Shwmae Su'mae gyda llawenydd yn Ysgol Treganna. Lansiwyd 'Gair ar y Giat', sef dull arbennig o groesawu wrth y giat, gan annog pawb i ddefnyddio'r Gymraeg o'r funud gyntaf. Roedd yn hyfryd gweld plant, staff a theuluoedd yn ymuno'n frwdfrydig, gan rannu'r iaith mewn ffordd naturiol a chynnes. Mae dathliadau fel hyn yn cryfhau ein hymrwymiad i'n hymgyrch **'Cymraeg yn Gyntaf'** ac yn dangos pa mor braf yw datblygu'r iaith gyda'n gilydd fel teulu ysgol.

## Cogurdd

Roedd tua 150 o blant wedi cymryd rhan yn y gystadleuaeth CogUrdd eleni, gan arddangos eu sgiliau coginio a'u dychymyg yn frwdfrydig. Pleser oedd gweld cymaint yn cymryd rhan ac yn mwynhau i'r eithaf. Fe gyhoeddwn yr enillydd ar ddydd Llun, ac rydym yn edrych ymlaen at ddathlu eu llwyddiant gyda'r gymuned ysgol gyfan. Diolch i bawb a gymerodd ran ac i chi rieni am ymarfer a pharatoi.

## Calendr

**23.10.25**
**Disgo Calan Gaeaf**

**24.10.25**
**HMS**

**4a5/10/25**
**Linc**
**Noson Rhieni**

# Y Double Double!

Ddoe, cystadlodd tri thîm pêl-droed merched Blwyddyn 5 a 6 Ysgol Treganna yn nhwrnament yr Urdd. Am y tro cyntaf erioed yn hanes y timau merched, llwyddwyd i gipio'r wobr gyntaf am yr ail waith yn olynol – camp arbennig ac hanesyddol! Mae'r merched bellach yn edrych ymlaen at fynd ymlaen i rownd nesaf y gystadleuaeth yn Aberystwyth ym mis Mai. Diolch enfawr i'r Urdd a'r hyfforddwyr am drefnu diwrnod llawn hwyl, cyffro a chyfeillgarwch.



# Wythnos Gwrth-fwlio

Wrth i ni baratoi ar gyfer **Wythnos Gwrth-fwlio**, rydym am sicrhau bod ein gweithgareddau a'n neges yn cefnogi ein disgyblion ac yn adlewyrchu anghenion ein cymuned ysgol.

I'n helpu i wneud hyn, gofynnwn yn garedig i chi lenwi holiadur byr.

Bydd eich mewnbwn yn ein helpu i ddeall yn well sut mae bwlio yn effeithio ar blant a sut y gallwn gydweithio i'w atal.

Rhieni - Linc




Plentyn - Linc

# Disgo Calan Gaeaf

***Math (bore a prynhawn)***
***Derbyn a Blwyddyn 1***

Fe fydd eich plentyn yn aros ar ôl ysgol yng ngofal staff yr ysgol. Does dim angen rhieni i aros.
Plant i ddod i'r ysgol yn eu gwisg ysgol/dillad ymarfer corff am y dydd fel yr arfer. Dewch â'ch dillad disgo gyda chi i'r ysgol a fe fydd y staff yn eu newid ar gyfer y disgo gan ddod a'r wisg ysgol adre mewn bag.

Cofiwch labeli pob eitem plis a does dim angen ategolion ychwanegol.

Amser casglu yn y mannau arferol am 4.15

***Blwyddyn 2 i 6***

Dewch i'r ysgol yn eich gwisg ysgol/ ymarfer corff am y dydd fel yr arfer.
Dewch yn ôl i'r ysgol drwy'r brif fynedfa yn eich dillad disgo i fwynhau ar yr amseroedd isod! Does dim angen rhieni i aros.

Mannau casglu arferol **(dosbarthiadau)** ar y diwedd.

- **Blwyddyn 2 a 3- 4.30-5.15**
- **Blwyddyn 4,5 a 6-5.30-6.15**

Mae angen prynu tocyn i bob plentyn ar ParentPay plis.

Diolch i Ffrindiau Ysgol Treganna am y trefnu




# Patrwm Iaith

Beth wyt ti am wneud dros yr hanner tymor?

Dros yr hanner tymor rydw i am…

**Her**

Rydw i'n gobeithio mynd/gwneud ...

Edrychaf ymlaen at...

## Testun Trafod yr Wythnos

Ar ddiwrnod gwlyb does dim yn well na...

## Cân yr wythnos

**Dadleoli** - Diwrnodau Haf

## Idiom yr wythnos

Rhoi'r ffidil yn y to.

